Astudiaethau Achos Gorllewin Cymru Iachach

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Rhaglen 7: Creu Cysylltiadau i Bawb

Gweithredoedd/Straeon Caredigrwydd:
https://www.connecttokindness.wales/stories/

Prosiectau Pontio'r Cenedlaethau

Prosiect Cyfnewid Sgiliau Pontio'r Cenedlaethau Trefdraeth yn Nhrefdraeth, Sir Benfro

Rhannwyd y prosiect yn 3 rhan ddilyniannol i raddau helaeth, gan orgyffwrdd o ran amser.

- **"Doors/Windows" / "Drysau/Ffenestri"** - prosiect ar-lein oedd hwn yn seiliedig ar Grŵp Facebook newydd Llais Tydrath/Newport Voice a grëwyd at y diben. Nod hyn oedd rhoi cyhoeddusrwydd i'r prosiect cyfan, datblygu diddordeb a sicrhau cyfranogiad cymunedol. Roedd bob amser yn fwriad defnyddio cynnwys a gyfrannwyd i gynhyrchu ffilm fach, cofnodi bywyd yn ystod y cyfyngiadau symud a sut y gwnaethom helpu ein gilydd drwy'r pandemig.

- **"Bridges" / "Pontydd" -** roedd hwn ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a sgiliau digidol a TG wyneb yn wyneb rhwng y cenedlaethau.

- **"Rainbows" / "Bwa'r Arch"** - cyfres o weithgareddau a digwyddiadau ar thema oedd hwn yn cynnwys amryw o isbynciau, gan ddwyn ynghyd y rheiny a ymatebodd i arolwg ar-lein a gynhaliwyd gennym i ganfod y bobl a oedd yn cynnig sgiliau a rheiny a oedd yn dymuno ennill sgiliau.

Gwyliwch y fideo yma: https://www.youtube.com/watch?v=rTT7zvl5PdQ